Atodiad C

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Cyffredinol 15 Ebrill 2008

Presennol

Ei Theilyngdod y Maer -Cyng. Myfi Powell Jones

Cynghorwyr

R. M. Jones, I. C. Thomas, R. Anderson. H. Edwards, H. W. Roberts, H. Gwyn, O. T. Owen, A. W. Bohana, A. Kirk, A. Y. Williams, M. E. Williams, T. Thomas

Siaradwr Gwadd Mr Rhys Prydderch

Cafwyd sgwrs gan ein siaradwr gwadd ar Seiont II.

Yn ei sgwrs dywedodd

- Bod Seiont II wedi colli statws Amgueddfa Cofrestredig
- Cyngor Gwynedd sydd yn berchen ar yr adeilad ac os yw'r amgueddfa eisiau cael les newydd bydd yn rhaid i'r Les newydd fod yn enw Cwmni.
- Efallai y byddai yn bosib ffurfio Cwmni Seiont II er mwyn cymeryd les allan a cadw'r amgueddfa i fynd
- Mae'r amgueddfa ar hyn o bryd yn colli tua £1,200 y flwyddyn.
- Mae dau berson yn derbyn cydnabyddiaeth fechan am roi eu hamser i fod yn yr amgueddfa pan ar agor.
- Cost yswiriant eto yn uchel iawn
- Derbyniwyd rhodd o £5,000 o dan ewyllys berson o Betws y Coed ac hefyd cafwyd £2,500 ar ddiwedd cwblhau yr ystad - ond er hynny maent yn dal i golli tua £1,200 y flwyddyn fel y crybwyllir uchod
- Wedi penderfynu agor yr amgueddfa am eleni
- Mae cais wedi mynd allan i Gwmni lleol noddi yr amgueddfa ac maent yn dal i ddisgwyl am ymateb

- Gobeithio cael arian gan Noddwr ac hefyd Les i'r adeilad gan Cyngor Gwynedd

Mae eisiau rhywbeth i gario yr amgueddfa ymlaen dros gyfnod byr.

Diolchodd Rhys am y gefnogaeth y maent wedi gael gan Cyngor Tref ar hyd a blynyddoedd a dywedodd ble bynnag y sefydlir yr amgueddfa bydd rhaid cadw enw Seiont II

****

1. Ymddiheuriadau

Cyng. W. R. Owen, G. Parry. Katherine Owen Clerc y Dref (oherwydd salwch)

2. Datgan Buddiant Personol

Cyng. R. M. Jones - Cynllunio
Cyng. H,. Edwards - Cynllunio
Cyng. I. C. Thomas - Eitem 12

3. Eitem Brys

Llythyr gan Glwb Rotari Caernarfon (Rhif 15)

4. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau

PENDERFYNWYD

Anfon yr argymhellion i'r awdurdod (gweler dogfen amgaeedig)

NODIR bod Cyng H Gwyn wedi pleidleisio yn erbyn ar Rhif 7

NODIR bod Cyng. A. Bohana, T. Thomas, A. Kirk ac A. Anderson ddim wedi pleidleisio ar Rhif 8

5.Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu
PENDERFYNWYD

Derbyn a'u talu

6.Rhybudd o Gynnig gan Cyng. H. W. Roberts

PENDERFYNWYD

Anfon llythyr i Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt roi y mater hwn ar Rhaglen nesaf o Gyfarfod Partneriaeth Caernarfon

7. Rhybudd o Gynnig Cyng I. C. Thomas

PENDERFYNWYD

Anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am ddiweddariad ynglyn ar arwyddion
a gofyn os oes modd rhoi arwyddion dros dro i fyny

8. Cyngor Gwynedd

Rhaglen gwaith yr amgylchedd

PENDERFYNWYD

Derbyn er gwybodaeth

9. Unllais

PENDERFYNWYD

Derbyn er gwybodaeth

10.CADW

PENDERFYNWYD

Derbyn er gwybodaeth

11.Llythyr o Ddiolch CAB

PENDERFYNWYD

Derbyn er gwybodaeth

12. Rhybudd o Gynnig Cyng. O. T. Owen

PENDERFYNWYD

Anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw at y broblem yma a gofyn iddynt roi 'netting' o amgylch y llwyfan

13. E-bost Gareth Edwards

PENDERFYNWYD

Anfon llythyr at Gareth i ddiolch iddo am dynnu sylw y Cyngor at y broblem yma ac hefyd gofyn iddo anfon copi o ymateb Cyngor Gwynedd
i ni

14. CWESTIYNNAU

Oes bosibl anfon llythyr o ddiolch at Mrs Menna Williams Arweinydd Cor Meibion Caernarfon yn dangos gwerthfawrogiad y Cyngor am y llwyddiant mae wedi gael gyda'r Cor ar hyd y blynyddoedd

15. EITEM BRYS

Llythyr Rotari

PENDERFYNWYD

Derbyn gyda diolch ac anfon llythyr i gadarnhau hyn at y Rotari

Gorffennodd y cyfarfod a 7.50

Arwyddwyd..... Dyddiad.....